**CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Hysbysiad Statudol - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

Sarah Morgan,
Prif Swyddog Addysg,
Cyngor Dinas Casnewydd,
Canolfan Ddinesig,
Casnewydd,
NP20 4UR

Bronwen Graham,
Cadeirydd y Corff Llywodraethu,
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas,
Yewberry Close,
Casnewydd
NP20 6WJ

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Rhoddir hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion y mae Cyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau yn ôl yr angen, yn bwriadu lleihau capasiti ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o 378 i 315 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024; ac ymestyn yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn effeithiol o fis Medi 2025.

Cynhaliodd Cyngor Dinas Casnewydd a'r corff llywodraethu ymgynghoriad ar y cyd cyn penderfynu ar gyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r sylwadau wedi'u gwneud gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn ysgol gynradd wirfoddol a reolir cyfrwng Saesneg yn Yewberry Close, Malpas, Casnewydd, NP20 6WJ. Nifer mesuredig y lleoedd yn yr ysgol yw 378 a'r nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6 yw 54. Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ystod y cyfrifiad disgyblion diwethaf (CYBLD 2023) oedd 281.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig lleihau capasiti cyffredinol yr ysgol i 315 o leoedd, a thrwy hynny leihau'r nifer derbyn cyhoeddedig o'r Derbyn i Flwyddyn 6 i 45, gan ddod i rym o fis Medi 2024.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnig ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11 oed o fis Medi 2025. Y nifer derbyn i'r dosbarth Meithrin ym mis Medi 2025 fydd 32.

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, a bydd ceisiadau am dderbyniadau yn parhau i gael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Mae gan y Cyngor bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ac mae'n cynnig cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y ddarpariaeth hon. Mae mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

**Cyfnod Gwrthwynebu**

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, sef hyd at 19 Ionawr 2024, caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynnig yn ysgrifenedig neu dros e-bost.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig naill ai at Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR, neu i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, at sylw Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, Yewberry Close, Casnewydd, NP20 6WJ. Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk neu i malpaschurch.primary@NewportSchools.Wales

Bydd y Cyngor, ynghyd â'r corff llywodraethu, yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'u sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:

Sarah Morgan

Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd,
Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR
Dyddiad: 11 Rhagfyr 2023

Cadeirydd y Corff Llywodraethu,
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas,
Yewberry Close, Casnewydd, NP20 6WJ
Dyddiad: 11 Rhagfyr 2023